# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth Ychwanegol at y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid, Edwina Hart, ar 25 Hydref 2002

### At David Lloyd:

Ar ddiwedd y ddadl ddydd Mawrth diwethaf, addewais ymateb i unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r gyllideb a godwyd gan yr Aelodau nad ymdriniwyd â nhw yn fy araith gloi.

Gofynasoch a oeddwn wedi gwneud darpariaeth yng nghynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer y contract newydd i feddygon teulu. Fel a ddywedais yn fy araith, byddaf yn gwarantu £20 miliwn i'r byrddau iechyd lleol yn 2003-04 gogyfer â rhoi contract y meddygon teulu ar waith a datblygiadau cysylltiol o fewn gofal sylfaenol. O'i ystyried gyda'r dyraniadau yr wyf wedi eu cynnwys yn y llinell wariant i wasanaethau iechyd teulu yn y gyllideb, mae hyn yn cynrychioli cynnydd o bron i 8 y cant fel cyfanswm yn y gyllideb hon, sy'n ddibynnol ar y galw, yn 2003-04 o'i chymharu â'r flwyddyn gyfredol.

Awgrymasoch hefyd y dylai fod yna linell bwrpasol yn y gyllideb ar gyfer ambiwlansys. Yn hanesyddol, mae'r cyllid ar gyfer ambiwlansys wedi'i gynnwys o fewn dyraniad refeniw blynyddol yr awdurdodau iechyd, sydd yn y llinell wariant i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau a chyllidebau canolog yn y gyllideb. Yr wyf wedi dyrannu £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer ambiwlansys y mae eu hangen ar frys i'r llinell wariant honno. Fel y gwyddoch, Comisiwn Iechyd Cymru fydd yn comisiynu gwasanaethau ambiwlans o fis Ebrill 2003 ymlaen. Hyd yma, fodd bynnag, nid oes penderfyniadau wedi'u gwneud eto ynglŷn â'r trefniadau ariannu ar gyfer Comisiwn Iechyd Cymru a'r gwasanaeth ambiwlans.

Er bod y swm yn y llinell wariant hybu iechyd yn y gyllideb wedi'i leihau, mae'r cyllid wedi ei drosglwyddo i linell wariant iechyd y cyhoedd (yn cynnwys brechlynnau), sy'n fan mwy priodol. Darperir y cyllidebau hybu iechyd ar gyfer rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, megis rheoli tybaco, rhwydwaith cynlluniau ysgolion iach Cymru, y safon gorfforaethol ar gyfer iechyd yn y gwaith a chymorth i gynghreiriau iechyd lleol. Tra bo rhai elfennau o'r rhaglenni hyn yn cael eu cyflenwi gan y gwasanaeth iechyd gwladol, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r cyllidebau ond yn cynnwys cyllid ar gyfer gweithgareddau penodol, nid ar gyfer gwasanaethau hybu iechyd yn eu cyfanrwydd. Mae'r ymddiriedolaethau ac, o 2003 ymlaen, y byrddau iechyd lleol, hefyd yn cyfrannu tuag at hybu iechyd a gwneir darpariaeth ar gyfer hyn yn llinell wariant y gyllideb ar gyfer gwariant cyfredol byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau.

O ran eich cwestiwn ynglŷn â chyllid i ymdrin â'r lefelau ffïoedd i gartrefi gofal yr henoed, gallaf gadarnhau y darparwyd ar gyfer y pwysau cyffredinol o ran cyflogau a phrisiau yn y ddarpariaeth yr ydym wedi'i chynnwys fel rhan o'r setliad i lywodraeth leol. Yr wyf hefyd wedi neilltuo rhai symiau sylweddol i ariannu pecyn o fesurau dros y blynyddoedd i ddod, yn ystod y cyfnod y mae'r adolygiad gwariant hwn yn ymdrin ag ef. Deallaf y pryderon ynglŷn â'r pwysau yn y sector gofal ac mae mesurau eisoes ar waith i helpu i ymdrin â'r rhain. Yr ydym wedi sefydlu grŵp strategaeth gofal Cymru i edrych ar faterion tymor canolig i hir. Yr ydym hefyd yn gweithredu ynglŷn â gwell comisiynu a chynllunio, hyfforddiant, materion y gweithlu a chodi taliadau tecach.

### At Helen Mary Jones:

Ar ddiwedd y ddadl ddydd Mawrth diwethaf, addewais ymateb i unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r gyllideb a godwyd gan yr Aelodau nad ymdriniwyd â nhw yn fy araith gloi.

Gofynasoch a yw cyllideb Dysgu ac Addysgu Cymru yn cynnwys elfen o gyfalaf y gellid ei defnyddio ar adeiladau ysgol ar gyfer y chweched dosbarth. Yn gyffredinol, yr awdurdodau lleol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am arian cyfalaf i ysgolion a byddant yn dal i fod yn gyfrifol am ystâd yr ysgol. Yn yr ystyr hwnnw, nid yw'r trefniadau newydd i ariannu'r ddarpariaeth ôl-16 yn cynrychioli unrhyw newid. Fodd bynnag, ac yn ychwanegol, gall ELWa—y Cyngor Cenedlaethol ariannu prosiectau penodol sy'n cynnwys ysgolion a phartneriaid eraill, yn unol â'i gynlluniau strategol. Y prosiectau a fyddai'n fwyaf tebygol o ddenu cefnogaeth ELWa fyddai'r rheini sy'n anelu at ehangu cyfleoedd dysgu, yn enwedig drwy gyfranogiad ehangach neu ddatblygu cymunedol.

Gofynasoch hefyd am i'r gyllideb ar gyfer atgyweirio ysgolion gael ei chynyddu. Yr wyf wedi gwneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer cyllid cyfalaf i ysgolion yng nghynigion drafft y gyllideb sydd, fel cyfanswm erbyn 2005-06, yn cynrychioli cynnydd o bron i 40 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Fel a ddywedais yn yr araith yr wyf hefyd, yn groes i'r arfer, wedi ymrwymo i barhau â gwariant sylweddol tan 2010, sy'n tanlinellu penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i wireddu ein targed o wella pob adeilad ysgol hyd at y safon ofynnol erbyn hynny.

**At Janet Davies:**

Ar ddiwedd y ddadl ddydd Mawrth diwethaf, addewais ymateb i unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r gyllideb a godwyd gan yr Aelodau nad ymdriniwyd â nhw yn fy araith gloi.

Awgrymasoch fod y cynllun ULTra yn enghraifft o ddyraniad ariannol cwbl ddi-drefn. I'r gwrthwyneb, mae'r cynllun trafnidiaeth drefol awtomataidd i Gaerdydd yn brosiect arloesol a oedd yn rhan o gynnig Cyngor Sir Caerdydd am gymorth grant trafnidiaeth yn 2002-03. Bydd y cynllun yn cysylltu canol y ddinas, y ganolfan ddinesig a bae Caerdydd, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid o £3.7 miliwn yn 2002-03 i gwrdd â chostau dylunio cychwynnol y cynllun. Mae'r Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau yn ariannu'r profion prototeip gyda grant o £2.7 miliwn. Os bydd y profion yn foddhaol, ac yn amodol ar i'r caniatadau statudol angenrheidiol gael eu rhoi, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ariannu'r gost o roi'r cam cyntaf ar waith ym mae Caerdydd ar gost lawn (yn cynnwys dylunio) o £19.2 miliwn.

Mynegasoch bryder hefyd ynglŷn â'r gostyngiad yn llinell wariant y gyllideb ar gyfer ardaloedd arbennig cadwraeth yn 2003-04. Gallaf eich sicrhau bod y llinell sylfaen newydd yn darparu adnoddau digonol i barhau â'r rhaglen o adolygu caniatadau a allai fod yn niweidiol i safleoedd Natura 2000. Mae yna ddarpariaeth hefyd ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru i ganiatáu i'r cyngor barhau i fonitro holl safleoedd Natura 2000 Cymru, sy'n cyfateb i ryw 60 y cant o'r safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yng Nghymru.

**At Janet Ryder:**

Ar ddiwedd y ddadl ddydd Mawrth diwethaf, addewais ymateb i unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r gyllideb a godwyd gan yr Aelodau nad ymdriniwyd â nhw yn fy araith gloi.

Mynegasoch bryder fod y ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer adfywio cymunedol ledled Cymru yn annigonol. Cydnabyddaf na fydd y gyllideb adfywio cymunedol ar ei phen ei hun yn ddigon i drawsnewid ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn llwyr. Mae angen ffynonellau cyllid eraill. Er enghraifft, un o'r daliadau canolog yn Cymunedau yn Gyntaf yw y bydd yn gweithredu fel 'catalydd i weithredu' ac yn tynnu ffynonellau cyllid eraill i mewn i helpu i adfywio'r cymunedau hyn. Ar ben hynny, bydd y bwrdd polisi adfywio cymunedol a

chynhwysiant cymdeithasol—yr wyf fi yn ei Gadeirio—yn gweithio i sicrhau bod pob rhaglen arall yn y sector cyhoeddus yn cael ei thargedu at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Cydnabyddaf hefyd anghenion y cymunedau hynny nad yw eu sefyllfa ond fymryn gwell na'r rheini sy'n gymwys o dan Cymunedau yn Gyntaf. Dyna pam yr wyf wedi sefydlu rhaglen o gyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. Mae hon yn rhaglen hyblyg i Gymru gyfan a fwriadwyd i gyd-fynd â Cymunedau yn Gyntaf a bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ardaloedd anghenus.

Codasoch amheuon hefyd ynglŷn ag ymrwymiad y Llywodraeth i greu gwell cartrefi i bobl yng Nghymru. 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' yw'r fframwaith hollgwmapsog, gyda nodau ac amcanion a fydd yn arwain at welliannau sylweddol ym maes tai ym mhob sector yng Nghymru.

Yr ydym yn darparu adnoddau cyfalaf a refeniw sylweddol ac mae gennym nifer o gyllidebau penodol i dargedu adnoddau at gynlluniau tai strategol a'r meysydd blaenoriaeth hynny sydd wedi'u nodi yn 'Cartrefi Gwell'.

Gan nad yw adnoddau cyfalaf yn cael eu pridiannu gan mwyaf erbyn hyn mae gan awdurdodau lleol lawer mwy o hyblygrwydd i roi sylw i flaenoriaethau tai lleol a chyflawni eu hamcanion tai strategol eu hunain a rhai'r Cynulliad—yn nhermau eu gwariant cyfalaf eu hunain a hefyd o ran penderfynu sut mae'r dyraniad grant tai cymdeithasol i gael ei fuddsoddi.

Ymysg y meysydd lle'r ydym wedi cymryd camau sylweddol i sicrhau gwelliannau, ac wedi darparu cyllid ychwanegol yn y gyllideb hon, mae:

- Y rhaglen ddigartrefedd a chysgu allan, sydd yn fecanwaith holl-bwysig er cyflawni amcanion y strategaeth ddigartrefedd genedlaethol sy'n cael ei llunio ar hyn o bryd, ac mae'n tywys gwaith y Comisiwn Digartrefedd yn ei flaen ac yn adeiladu arno.

  Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2004-05 a 2005-06, sy'n darparu rhaglen flynyddol o bron i £5 miliwn, yn cydnabod y bydd gennym well gwybodaeth am anghenion a blaenoriaethau lleol unwaith y bydd y strategaethau digartrefedd lleol wedi'u sefydlu ym mis Medi 2003. Cymharwch hyn â'r £650,000 a wariwyd yn 1998-99.

  Mae'r rhaglen yn ariannu mudiadau gwirfoddol i ddarparu cynlluniau bond, cyngor ym maes tai, gwasanaethau ymestyn allan a phrosiectau eraill i atal neu liniaru digartrefedd. Mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol hefyd i'w cynorthwyo i ddatblygu strategaethau digartrefedd lleol yn unol â'u dyletswyddau statudol newydd o dan Ddeddf Digartrefedd 2002.

- Bydd grantiau refeniw i dai â chefnogaeth yn golygu bod modd cynyddu'r ddarpariaeth tai â chefnogaeth ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Bydd y cynnydd yn y llinell sylfaen yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad gynyddu'r cyfraddau grant presennol yn ogystal â darparu ar gyfer twf bach yn y rhaglen (100 o welyau newydd yn fras) yn y flwyddyn yn arwain at ddyddiad gweithredu'r rhaglen newydd i gynnal pobl.

  Mae tai â chefnogaeth yn gyfraniad pwysig tuag at gyflawni amcanion Llywodraeth y Cynulliad o fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Bydd y twf yn y rhaglen yn golygu bod mwy o bobl sy'n agored i niwed yn gallu cael cymorth i'w hatal rhag colli eu cartref.

- Mae'r rhaglen addasiadau ymateb cyflym yn rhaglen newydd a fydd yn ymateb ar unwaith i anghenion penodol drwy ddarparu addasiadau megis rampiau, lifftiau grisiau a

chanllawiau, i alluogi pobl oedrannus ac anabl i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

- Mae'r gwasanaethau gofal a thrwsio yn darparu cymorth i alluogi pobl oedrannus ac anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn gyfforddus a diogel. Mae cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar wella'r modd yr ariannir gwasanaethau gofal a thrwsio yn pwysleisio'r pwysigrwydd a roddir ar le byw iachach a mwy diogel ar gyfer pobl hŷn ac anabl.

  Bydd y rhaglen yn ei gwneud yn haws rhyddhau pobl o'r ysbyty ac yn caniatáu i ragor o bobl oedrannus/anabl aros yn eu cartrefi eu hunain yn gyfforddus a diogel; bydd yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau ysbyty a gwasanaethau gofal preswyl; ac yn atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty drwy roi sylw i broblemau cartrefi nad ydynt mwyach yn saff nac yn briodol efallai i bobl hŷn ac anabl.

- Y rhaglen grant rheoli tai cymdeithasol a fwriadwyd i helpu landlordiaid cymdeithasol i gyflawni safonau uchel o ran rheolaeth tai. Mae'r rhaglen yn rhoi'r cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi a hyrwyddo arloesedd ac arferion da y mae modd eu hefelychu ar draws y sector tai cymdeithasol yng Nghymru.

- Y rhaglen i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig—nod y cynllun gweithredu i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yw sicrhau bod cyfarwyddiadau a thargedau clir yn cael eu gosod ar gyfer landlordiaid cymdeithasol a darparwyr tai eraill, i sicrhau bod gwahaniaethu a diffyg mantais yn cael eu dileu ar draws y cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru.

  Bydd y gyllideb tai ar gyfer cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn cael ei defnyddio i gynorthwyo landlordiaid cymdeithasol i roi eu cyfrifoldebau o dan y cynllun gweithredu ar waith. Yn arbennig, caiff y gyllideb ei defnyddio: i ariannu prosiectau tai arloesol ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a fydd yn arwain at arferion gorau y gellir eu hefelychu ar draws gwahanol rannau o Gymru; i gynhyrchu pecyn hyfforddiant 'tai cymdeithasol a hil'; ac i gefnogi cynhadledd dai genedlaethol ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

**At Nick Bourne:**

Ar ddiwedd y ddadl ddydd Mawrth diwethaf, addewais ymateb i unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r gyllideb a godwyd gan yr Aelodau nad ymdriniwyd â nhw yn fy araith gloi.

Codasoch gwestiynau ynglŷn â'r meddylfryd wrth wraidd y gostyngiad yn y cyllidebau hybu iechyd. Er bod y swm yn y llinell wariant hybu iechyd yn y gyllideb wedi'i leihau, mae'r cyllid wedi ei drosglwyddo i linell wariant iechyd y cyhoedd (yn cynnwys brechlynnau), sy'n fan mwy priodol. Darperir y cyllidebau hybu iechyd ar gyfer rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, megis rheoli tybaco, rhwydwaith cynlluniau ysgolion iach Cymru, y safon gorfforaethol ar gyfer iechyd yn y gwaith a chymorth i gynghreiriau iechyd lleol. Tra bo rhai elfennau o'r rhaglenni hyn yn cael eu cyflenwi gan y gwasanaeth iechyd gwladol, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r cyllidebau ond yn cynnwys cyllid ar gyfer gweithgareddau penodol, nid ar gyfer gwasanaethau hybu iechyd yn eu cyfanrwydd. Mae'r ymddiriedolaethau ac, o 2003 ymlaen, y byrddau iechyd lleol, hefyd yn cyfrannu tuag at hybu iechyd a gwneir darpariaeth ar gyfer hyn yn llinell wariant y gyllideb ar gyfer gwariant cyfredol byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau.

Holasoch hefyd ynglŷn â'r gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae'r llinellau gwariant ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y

gyllideb yn cynnal y cynllun ardaloedd amgylchedd arbennig, y cynllun cynefinoedd a'r cynllun gweundiroedd. Yn 1998, argymhellodd ymgynghoriad cyhoeddus y dylid cyfuno'r cynlluniau hyn yn un, gan barhau â'r arferion gorau o'r cynlluniau a'u hymgorffori mewn un cynllun fferm gyfan a fyddai ar gael ledled Cymru—Tir Gofal. Disodlodd Tir Gofal y cynlluniau hyn o 1999 ymlaen ac mae'r tri chynllun wedi cau i geisiadau newydd erbyn hyn. Mae'r gostyngiad yn eu proffil blynyddol yn adlewyrchu'r ffaith y bydd nifer y cytundebau sy'n dal i fodoli yn gostwng yn gyson dros y pedair blynedd nesaf.

**At William Graham:**

Ar ddiwedd y ddadl ddydd Mawrth diwethaf, addewais ymateb i unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r gyllideb a godwyd gan yr Aelodau nad ymdriniwyd â nhw yn fy araith gloi.

Mynegasoch bryder ynglŷn â'r ffordd y caiff y gronfa amddifadedd ei dosbarthu a byddwch yn falch o wybod felly fy mod yn llwyr fwriadu cyhoeddi fformiwla ddosbarthu y gronfa amddifadedd cyn gynted ag y mae wedi'i phennu'n ffurfiol.

Gallaf egluro hefyd na fydd y ddarpariaeth yr wyf wedi'i gwneud o ran cyllid Cymunedau Mwy Diogel yn disodli cyllid y Swyddfa Gartref yn y maes hwn—ychwanegu ato a wna. Bydd y gronfa yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r agenda cymunedau mwy diogel. Yn arbennig, efallai y caiff ei ddefnyddio i gefnogi tasglu heddlu arbennig i'r diben o fynd i'r afael â'r bygythiad cyffuriau yn ne Cymru. Bydd hefyd yn ffynhonnell gyllid i Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaethau ieuenctid er mwyn gostwng lefel troseddu ac i ymgymryd â chynlluniau cymunedau mwy diogel.

**At Alun Cairns:**

Ar ddiwedd y ddadl ddydd Mawrth diwethaf, addewais ymateb i unrhyw bwyntiau penodol ynglŷn â'r gyllideb a godwyd gan yr Aelodau nad ymdriniwyd â nhw yn fy araith gloi.

Nid yw fy nghynigion drafft o ran y gyllideb yn gwneud darpariaeth benodol gogyfer â'r cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol o fis Ebrill 2003 ymlaen. Bob blwyddyn, disgwyliaf i bob corff cyhoeddus sy'n cael cyllid craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud arbedion effeithlonrwydd. Yr wyf wedi ei gwneud yn glir, ym mhob cyd-destun, er nad yw dyraniadau'r gyllideb y flwyddyn nesaf yn darparu ar gyfer y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, nad ydynt ychwaith wedi cael eu haddasu i adlewyrchu'r arbediad effeithlonrwydd disgwyliedig.

O ran y cronfeydd strwythurol, mae'r ffigur o £340 miliwn a ddyfynnwyd gennych yn ystod y ddadl yn cyfeirio at gyfanswm yr arian cyhoeddus, h.y. taliadau grant y cronfeydd strwythurol ynghyd â'r nawdd cyfatebol o'r sector cyhoeddus a ddylai gael ei achosi ym mlwyddyn ariannol 2003-04. Nid Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r unig gorff sy'n darparu'r elfen nawdd cyfatebol—gwneir hynny hefyd gan awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Mae fy nghynigion drafft o ran y gyllideb, felly, yn darparu llinell sylfaen o £220,000 i Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru ar gyfer 2003-04, nad yw ond yn ymdrin â gwariant at ddibenion cronfeydd strwythurol Ewrop, y gronfa adfywio leol, y sector gwirfoddol, nawdd cyfatebol a chymorth rhaglenni. Mae'r llinellau sylfaen sy'n ymdrin yn benodol â chronfeydd strwythurol Ewrop yn werth £186 miliwn i gyd. Mae cyllidebau nawdd cyfatebol yn cael eu dal hefyd mewn prif grwpiau gwariant eraill, megis cronfa'r Ffordd i Ffyniant, nawdd cyfatebol yn y prif grŵp gwariant datblygu economaidd.

**Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ19361 a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, ar 30 Hydref 2002**

**At David Lloyd:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Hydref, fe ofynnoch a oedd aelodau Cabinet y Cynulliad yn cael gweld drafftiau cynnar o adroddiadau arolygiadau a chyd-adolygiadau cyn eu bod yn cael eu cyhoeddi. Addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch.

Nid yw aelodau'r Cabinet yn cael gweld drafftiau cynnar o adroddiadau o'r fath gan y gallai hynny beryglu annibyniaeth yr adolygiad. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithadol yn cael gweld drafft terfynol yr adroddiad ychydig cyn ei gyhoeddi (rhyw wythnos neu bythefnos fel arfer) er mwyn cael amser i baratoi ymateb. Mae llythyr esboniadol yr adroddiad (crynodeb o'r darganfyddiadau) yn cael ei anfon hefyd at y Gweinidog Cyllid ac i'm swyddfa innau. Ambell dro, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn papur briffio cynharach ar ddarganfyddiadau amodol a chasgliadau tebygol yr adolygiad neu'r cyd-adolygiad. Mae'r papurau briffio hyn fel arfer yn eithaf cyffredionl eu natur ac nid ydynt yn cyfeirio at fanylion unrhyw ddrafftiau.

**Gwybodaeth ychwanegol at y datganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, Jenny Randerson, ar 5 Tachwedd 2002**

**At Glyn Davies:**

Ar ôl y datganiad a wneuthum yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Hydref, addewais ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cwestiwn ynglŷn â tharddiad y dur a ddefnyddir yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Dewisodd Canolfan Mileniwm Cymru y prif gontractwr (Syr Robert McAlpine) drwy reolau'r Undeb Ewropeaidd, a chytunodd ar bris penodedig am gontract dylunio ac adeiladu. O dan reolau'r UE, mae'n anodd mynnu, gyda deunyddiau megis dur, o ble y dylent darddu. Rhaid ystyried hefyd y gallu i gynhyrchu dur a'r mathau o ddur sy'n ofynnol.

> Carwn ddweud ar y dechrau, tra bo mwyafrif y dur ar gyfer codi CMC yn dod oddi wrth Corus, nad yw hynny'n gwarantu ym mhob achos ei fod yn ddur o Brydain, er y dywedwyd wrth Gwmni CMC mai dyna fyddai'r sefyllfa. Yr wyf wedi gofyn am ddadansoddiad mwy manwl o darddiad y dur nag y medraf ei roi yma, a gobeithiaf roi gwybodaeth bellach pan fydd ar gael. Dylech wybod, fodd bynnag, mai nid oddi wrth y prif gontractwr y daeth y wybodaeth hon, ond oddi wrth y prif gyflenwr ac, mewn rhai achosion, oddi wrth gyflenwyr eraill.

Mae dur o ddwy brif ffynhonnell yn cael ei ddefnyddio ar gyfer CMC—daw'r hytrawstiau plât, sydd o wneuthuriad arbenigol iawn, o'r Ffindir, a daw'r gweddill oddi wrth Corus, o nifer o ffynonellau sydd i gyd yn y DU. Yr wyf wedi gofyn am restr fanylach o'r ffynonellau hyn. Deallaf y bydd Sheffield yn un o'r mannau ar y rhestr, ond ni fydd Cymru. Cymhlethir y mater ymhellach gan fod darnau penodol o ddur yn dod o ierdydd stoc ac, yn ôl a ddeallaf, mae llawer o ddur heb ei farcio y dyddiau hyn ac nid yw felly yn hawdd ei olrhain.

Tan yn ddiweddar Allied Steel and Wire oedd yn cyflenwi dur atgyfnerthu.

**Gwybodaeth ychwanegol at y datganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, Jenny Randerson, ar 7 Tachwedd 2002**

**At Glyn Davies:**

Yn dilyn y wybodaeth a roddwyd ar 5 Tachwedd, gallaf erbyn hyn roi rhagor o fanylion am darddiad dur CMC. Mae hyn yn ymhelaethu ar y wybodaeth yr wyf eisoes wedi'i darparu, ac mae'n rhestru peth dur sydd yn tarddu o Gymru (yn ychwanegol at ddur atgyfnerthu Allied Steel and Wire, y cyfeiriais ato gynt). Daw dur oddi wrth Corus o'r mannau a ganlyn:

- Scunthorpe/Glannau'r Humber—darnau bach a chanolig eu pwysau;
- Lakenby—darnau trwm ar gyfer y brigdwr a'r awditoriwm;
- Motherwell—platiau ar gyfer trawstiau parod;
- Corby—darnau tiwbaidd bach.

Daw'r dur o dramor fel a ganlyn:

- Y Ffindir—24 o hytrawstiau plât cantilifer ar gyfer yr awditoriwm.

Deallaf hefyd fod rhai o'r tiwbiau trwm i gynnal yr hytrawstiau plât yn dod o'r Almaen.

Deallaf yn awr fod y deciau metel yn dal i ddod o Gasnewydd.

Efallai y bydd y llenni dur gwrthstaen ar gyfer y to yn dod o Gymru (Cwmbrân) yn ogystal ag o Sheffield, ond mae hyn yn dibynnu ar y stoc ac ar bwy sy'n gwneud y gwaith rholio yn unol â'r manylebau perthnasol ar y pryd a pha stoc sydd yn y peiriant patinio.